**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys

24 Ebrill 2023

Annwyl gyfaill,

Ymchwiliad i ganserau gynaecolegol

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn edrych ar brofiadau menywod sydd â symptomau canser gynaecolegol, sut mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gwrando arnynt ac yn eu trin, a sut mae gwasanaethau'n grymuso ac yn gofalu am fenywod sydd wedi cael diagnosis canser gynaecolegol i sicrhau bod eu hanghenion corfforol, seicolegol ac ymarferol yn cael eu diwallu.

Bydd y Pwyllgor yn cymryd tystiolaeth lafar yn ystod tymor yr haf, ac ar ôl hynny byddwn yn llunio adroddiad ar ein canfyddiadau ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau i Lywodraeth Cymru. I helpu i gynorthwyo ein trafodaethau, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth a ganlyn i ni:

1. Yn ddiweddar, canfu astudiaeth Partneriaeth Meincnodi Canser Rhyngwladol a Cancer Research UK fod mwy o gleifion yn cael diagnosis o ganser mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yn y DU nag mewn gwledydd incwm uchel cymaradwy eraill. Mae'n nodi mai dim ond pan fyddant yn yr ysbyty y bydd mwy na thraean o gleifion yn darganfod bod ganddynt yr afiechyd. A allech egluro pam mae gennym lefelau uwch o achosion brys yn y DU?

2. Canfu'r astudiaeth fod y rhai 75 oed a throsodd yn fwy tebygol o gael diagnosis mewn argyfwng. Beth yw eich dealltwriaeth o'r rhesymau dros hyn?


3. Canfu'r astudiaeth hefyd fod canserau sydd yn aml â symptomau amhenodol, annelwig, fel canser yr ofari, yn fwy tebygol o gael diagnosis drwy lwybrau brys. A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ddadansoddiad sydd wedi'i wneud i ddeall yn well sut mae gwahanol fathau o ganserau gynaecolegol yn cyflwyno mewn adrannau damweiniau ac achosion brys?

4. Pa gamau sydd angen eu cymryd yn eich barn chi i sicrhau bod llai o gleifion yn cael diagnosis o ganser ar ôl atgyfeiriad brys neu ymweliad ag adran damweiniau ac achosion brys? Pa gamau ydych chi'n credu sydd angen eu cymryd i wella'r broses o asesu cleifion â symptomau canser cam hwyr sy'n cael eu derbyn drwy adran damweiniau ac achosion brys, ac i sicrhau bod cleifion canser newydd (a dderbynnir drwy adrannau damweiniau ac achosion brys, sydd fel arfer â chlefyd datblygedig) yn cael mynediad prydlon at wasanaethau a chymorth canser?

5. Unrhyw farn am y ffordd y mae timau oncoleg acíwt yn gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd o ran darparu gwasanaeth canser brys i ysbytai ag adrannau damweiniau ac achosion brys.

Er mwyn sicrhau y gallwn ystyried eich atebion wrth inni gymryd tystiolaeth lafar, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 12 Mai 2023.

Yn gywir



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament